**Hydref 11eg, 2021**

**Covid 19**

Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi cael sawl achos o ddisgyblion yn profi'n bositif gyda Covid 19. Rydym hefyd yn gweld cynnydd yn y nifer o staff sydd yn gorfod mynd am brawf PCR neu'n gorfod hunan ynysu gyda symptomau Covid/annwyd tra'n disgwyl am y canlyniad.

Mae prinder staff cyflenwol, yn enwedig yn y Gymraeg, yn achosi pryder ac mae'n rhaid canmol staff Ysgol Glanrafon am fod mor hyblyg yn helpu yn y dosbarthiadau eraill. Ein pryder mwyaf yw na fydd ganddom ni ddigon o staff i gynnal dosbarthiadau. Felly rydym yn eich rhybuddio, os oes yna fwy o achosion yn enwedig ymysg staff, efallai y bydd rhaid i ni gau rhai dosbarthiadau ar fyr rybudd. Gall hyn effeithio ar y Clwb Ben Bore a'r Clwb ar ôl Ysgol.

Os ydych yn cael llythyr "rhybuddio a Chyngori," trwy ebost, i ddweud bod eich plentyn wedi bod yn gyswllt agos i achos bositif erfyniwn arnoch i fynd a'ch plentyn am brawf PCR (nid lateral flow)

Dydi canran uchel o ddisgyblion ddim wedi dangos unrhyw symptomau cyn cael prawf positif. Mae profi'n hanfodol er mwyn i ni geisio cadw dosbarthiadau yn agored. Os yw eich plentyn yn profi'n bositif a fyddech cystal ag ebostio'r Ysgol gyda'r canlyniad postglanrafon@hwbcymru.net

Os byddwn yn gorfod cau, bydd gwaith yn cael ei ddarparu ar-lein a byddwn yn eich hysbysu am y trefniadau fel bo'r angen. Mae gwaith hefyd ar gael i unrhyw ddisgybl sydd adref yn hunan ynysu oherwydd canlyniad Covid Positif. Does dim gorfodaeth i gwblhau'r gwaith yma. Diolch am eich cydweithrediad.

**October 11th, 2021**

**Covid 19**

In recent weeks we have had several cases of pupils testing positive with Covid 19. We are also seeing an increase in the number of staff having to go for a PCR test or having to self-isolate with Covid/cold symptoms whilst waiting for the outcome.

The shortage of supply staff, particularly in Welsh, is a cause for concern and staff at Ysgol Glanrafon are to be commended for being so flexible in helping in the other classes. Our biggest concern is that we will not have enough staff to keep classes open. Therefore, we warn you that if there are more cases especially among staff, we may have to close some classes at short notice. This can also affect Clwb Ben Bore and the After School Club.

If you receive a "Warn and Inform" letter," via email, to say that your child has been a close contact to a positive case we urge you to take your child for a PCR test (not lateral flow).

A high percentage of pupils have not shown any symptoms before testing positive. Testing is essential if we are to try to keep classes open. If your child does test positive can you please email the School postglanrafon@hwbcymru.net

If we have to close any classes, work will be provided online and we will inform you of the arrangements as necessary. Work is also available for any pupil who is at home self-isolating due to a Covid Positive result. There is no obligation to complete this work.

Thank you for your co-operation.

Ysgol Glanrafon